

Swydd Ddisgrifiad

TEITL Y SWYDD: Teithio Ymlaen: Gweithiwr Cefnogi a Chynghori ar gyfer y Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE

LLEOLIAD Y SWYDDFA: De Cymru gan deithio'n rheolaidd ledled Cymru

RHEOLWR LLINELL: Y Cydlynnydd Gwasanaeth ar gyfer Y Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE

CYFRIFOLDEBAU GORUCHWYLIO:
None

PRIF DDIBEN Y SWYDD

Mae Teithio Ymlaen wedi ei ariannu gan Raglen Cydraddoldeb a Chynhwysiant Llywodraeth Cymru ac mae'n darparu gwasanaeth i gefnogi cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr ledled Cymru (plant, pobl ifanc ac oedolion) i arfer eu hawliau, mynd i'r afael ag anghydraddoldebau a rhoi terfyn ar gamwahaniaethu.

Mae gan y tîm Teithio Ymlaen Reolwr Tîm a thri aelod tîm ychwanegol yn ne, gorllewin a gogledd Cymru, ac mae'r prif dîm wedi'i leoli yng Nghaerdydd.

Mae arian ychwanegol wedi bod yn fodd o ehangu'r gwasanaethau sy'n cael eu cynnig i gynnwys gweithgareddau cymryd rhan i bobl ifanc a gwasanaeth rhoi cyngor, gwybodaeth a chefnogaeth i gymunedau Roma mudol sy'n byw yng Nghymru ar hyn o bryd ac sy'n dymuno gwneud cais am statws preswyllo'n sefydlog yn dilyn cynlluniau'r DU i adael yr Undeb Ewropeaidd.

Bydd y Gweithiwr Cefnogi a Chynghori ar gyfer Y Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE yn:

- **Datblygu, darparu a chydlynu'r gwasanaeth i ymateb i anghenion teuluoedd Roma mudol yr UE, gan fynd ati'n benodol i wneud y canlynol:**

Codi ymwybyddiaeth cymunedau Roma o'r gwasanaeth a'r Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE

Datblygu gwybodaeth ddealladwy yn ieithoedd y cymunedau

Cynnal sesiynau cynghori/ymgysylltu rheolaidd i aelodau o'r gymuned Roma gan weithio gyda sefydliadau partner lle bo'n briodol

Cefnogi teuluoedd Roma i lenwi gwaith papur y Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE

Darparu adnoddau ynglŷn â phroses y Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE i grwpiau cymunedol, ysgolion ac asiantaethau sy'n gweithio gyda'r gymuned Roma.

DYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU

1. Cynnig cyngor a chefnogaeth i ddinasyddion Roma yr UE ynglŷn â'r Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE: sesiynau un i un a rhai grŵp
2. Cefnogi dinasyddion Roma yr UE i wneud eu ceisiadau i'r Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE: cymorth digidol, darpariaeth ieithyddol (cymorth cyfieithu o'r Saesneg i'w mamiaith), darparu gwybodaeth am y cais a beth sydd ei angen
3. Bod yn gyfrifol am ddatblygu elfennau o waith y Gwasanaeth yn ôl cyfarwyddyd Cydlynedd y Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE
4. Datblygu ymwybyddiaeth, dealltwriaeth a brwdfrydedd am waith y Gwasanaeth ymhlith y gymuned Roma a gweithwyr proffesiynol perthnasol
5. Paratoi / annog / cefnogi / galluogi aelodau o'r gymuned Roma i ymwneud â'r gwasanaeth a chyflawni'r hyn y maen nhw'n ei ddymuno
6. Cydweithio ag aelodau'r gymuned Roma gan sicrhau bod eu llais yn greiddiol i'r broses, trwy dderbyn adborth am y gwasanaeth a gweithredu ar hynny
7. Trafod a negodi â gweithwyr proffesiynol perthnasol i sicrhau bod trefn a dealltwriaeth glir o ran swyddogaethau, cyfrifoldebau, disgwyliadau a chyfraniadau, ac y gweithredu ar hynny
8. Sicrhau bod pawb yn gweithio mewn modd sy'n arddel cyfleoedd cyfartal ac nad yw'n camwahaniaethu, ac y defnyddir safonau TGP Cymru yn hyn o beth
9. Cynorthwyo Cydlynedd y Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE i asesu deilliannau'r Gwasanaeth yn unol â'r fframwaith o ddeilliannau y cytunwyd arnynt drwy fonitro gweithgarwch a chasglu gwybodaeth briodol gan gynnwys adborth gan ddefnyddwyr y gwasanaeth
10. Sicrhau bod unrhyw bryderon o ran Diogelu yn cael sylw ac y gwneir penderfyniadau priodol o ran asesu risg ac atgyfeirio i'r Gwasanaethau Cymdeithasol / asiantaethau priodol eraill o dan oruchwyliaeth Rheolwr Tîm Teithio Ymlaen
11. Cydymffurfio â systemau ariannol a gweinyddol y Gwasanaeth yn unol â pholisïau a gweithdrefnau TGP Cymru
12. Sicrhau y cedwir cofnodion yn unol â pholisïau a gweithdrefnau cofnodi, rheoli data a diogelu plant TGP Cymru
13. Parchu cyfrinachedd yr wybodaeth a geir gan ddefnyddwyr gwasanaeth a gweithwyr proffesiynol yn unol â pholisïau TGP Cymru
14. Cydweithio ag aelodau eraill o staff
15. Bod yn gyfrifol am eich datblygiad proffesiynol eich hun ac ymgymryd â hyfforddiant priodol fel bo angen
16. Dyletswyddau a chyfrifoldebau rhesymol eraill fel sy'n ofynnol gan y Sefydliad ac sy'n gyson â'r radd gyflog.

AMODAU GWAITH

22.5 awr yr wythnos

Efallai y bydd angen gweithio y tu allan i oriau swyddfa, a fydd yn gofyn am agwedd hyblyg i'r wythnos waith. Bydd angen aros oddi cartref dros nos weithiau i fynychu sesiynau yng ngogledd a chanolbarth Cymru.

Bydd angen teithio i leoliadau amrywiol ledled Cymru ac weithiau y tu hwnt i Gymru, sy'n gofyn am drwydded yrru lawn a bod cludiant ar gael ichi.

Cymwyseddau craidd (Yn berthnasol i bob aelod o staff) ochr yn ochr â'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol penodol

Cyfathrebu'n Effeithiol:	Mynegi gwybodaeth a syniadau mewn ffordd glir, cryno a chywir; gwrandao ar bobl a sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu
Parchu Gwahaniaethau Unigol a Diwylliannol:	Dangos y gallu i weithio'n adeiladol gyda phobl o bob diwylliant, rhyw a chefnidir
Gweithio fel Rhan o Dîm:	Datblygu perthynas waith effeithiol gyda chydweithwyr ac aelodau o'r tîm ar draws y sefydliad cyfan
Hunanreoli:	Rheoli eich ymddygiad eich hun mewn modd sy'n myfyrio ar eich hunan a chwilio am gyfleoedd dysgu parhaus a chyfleoedd twf proffesiynol
Sicrhau Canlyniadau:	Cynhyrchu canlyniadau o ansawdd mewn dull amserol sy'n canolbwyntio ar wasanaethau ac yn ymrwymedig i sicrhau canlyniadau y cytunwyd arnynt
Croesawu Newid:	Bod yn agored i ddulliau a syniadau newydd, ymateb yn gadarnhaol i newid ac addasu'n gyflym i sefyllfaoedd newydd.

MANYLEB PERSON

(Yn benodol i'r rôl hon)

*Pan fyddwch yn llenwi eich ffurflen gais, dylech sicrhau eich bod yn cynnwys tystiolaeth o sut rydych yn bodloni pob un o'r meini prawf/gofynion hanfodol a restrir. Os byddwch yn bodloni unrhyw feini prawf dymunol, dylech gynnwys tystiolaeth o hyn hefyd. Cyn llenwi'r ffurflen gais, dylech ddarllen y canlynol:- *'Canllawiau ar gyfer llenwi'r ffurflen gais'*

CYMWYSTERAU		
<ul style="list-style-type: none">Cymhwyster OISC Lefel 1 neu'r gallu i gyflawni hyn mewn 3 mis	H	FF-D
<ul style="list-style-type: none">Safon dda o addysg, llythrennedd a rhifedd. Lefel 'O'/TGAU mewn Saesneg a Mathemateg neu gyfwerth	H	FF-C
<ul style="list-style-type: none">Cymhwyster proffesiynol mewn gwaith cymdeithasol, gwaith ieuenctid a chymunedol neu ddisgyblaeth berthnasol megis lechyd ac Addysg	H	FF-C
PROFIAD		
<ul style="list-style-type: none">Cyflwyno gwybodaeth / rhoi cyngor yn broffesiynol	H	FF-C
<ul style="list-style-type: none">Meithrin perthynas, partneriaethau a gwaith amlasiantaethol	H	FF-C
<ul style="list-style-type: none">Gweithio'n uniongyrchol gydag oedolion, pobl ifanc a phlant Roma	H	FF-C
<ul style="list-style-type: none">Cynllunio, arwain a chyflwyno gwaith yn uniongyrchol gyda phlant, pobl ifanc a / neu oedolion mewn modd lle gallan nhw gymryd rhan	H	FF-C
SGILIAU, GWYBODAETH A DEALLTWRIAETH		
<ul style="list-style-type: none">Cefnogi plant / pobl ifanc ac oedolion yn y gymuned	H	FF-C
<ul style="list-style-type: none">Gwybodaeth am y materion sy'n wynebu cymunedau Roma mudol yn y DU	H	FF-C
<ul style="list-style-type: none">Gwybodaeth am yr ieithoedd y mae cymunedau Roma yn eu defnyddio	H	FF-C
<ul style="list-style-type: none">Rhuglder mewn un neu fwy o'r ieithoedd dwyrain Ewrop y mae'r cymunedau Roma mudol yn eu siarad	D	FF-C

<ul style="list-style-type: none"> • Diogelu 		
<p>ARALL</p> <ul style="list-style-type: none"> • Full Driving Licence • The ability to speak Welsh 	<p>H D</p>	<p>FF FF</p>